Eich Tiwtor Personol

Fel myfyriwr newydd, bydd aelod staff academaidd yn cael ei bennu'n Diwtor Personol i chi. Bydd eich tiwtor yn aelod o'r staff academaidd yn yr Ysgol yr ydych yn astudio ynddi (neu un o'r Ysgolion yn achos myfyrwyr Cyd-Anrhydedd).

Fel rheol, eich tiwtor yw eich pwynt cyswllt cyntaf, a disgwylir i chi weld eich Tiwtor o leiaf dair gwaith y flwyddyn i drafod lles a materion academaidd yn ymwneud â'ch cynnydd. Serch hynny, nid ydych yn gyfyngedig i'r tri chyfarfod hynny yn unig a pho fwyaf y byddwch yn cadw mewn cysylltiad â'ch tiwtor, po fwyaf y byddant yn gallu'ch cynghori a'ch cynorthwyo.

Mae gan pob Ysgol hefyd Gyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-radd (Cyrsiau Hyfforddedig) ac Arweinydd Ymchwil Ôl-radd. Bydd y person yma hefyd yn gallu eich cynghori ar unrhyw fater academaidd neu yn gallu eich arwain at y gwasanaeth cefnogi perthnasol.
Bydd eich ysgol academaidd yn rhoi manylion i chi am eich Tiwtor Personol a sut i gwrdd ag ef/hi, felly cadwch lygad am hynny a gwnewch yn siŵr eich bod yn bresennol yn eich cyfarfod cyntaf a fydd yn cael ei gynnal yn fuan ar ôl i chi ddechrau. Os cewch unrhyw drafferth o ran y dewis o Diwtor a roddwyd i chi, mae pob croeso i chi gysylltu â'r Uwch Diwtor yn eich Ysgol (Cyrsiau Hyfforddedig), Arweinydd Ymchwil Ôl-radd (Cyrsiau Ymchwil) neu staff cefnogi yn eich canolfan Gweinyddu Myfyrwyr. Cewch ragor o wybodaeth am y System Tiwtor Personol yn eich Llawlyfr Ysgol electronig.